

10. Cnoc, Cnoc

Darlleniad: Efengyl Ioan 1:1–14

Llefarydd: Dyma'r newyddion da i bawb! Ganwyd Gwaredwr i ni.

Gweddi: Arglwydd Iesu, a ddaethost, o gariad tuag aton ni, i orwedd yn faban mewn preseb, diolchwn fod dy ddyfodiad wedi dod â chymaint o lawenydd i'n byd. Down ninnau, o'r newydd heno, i chwilio amdanat ti yn y stabl ym Methlehem. Boed i ni dy garu fel y carodd Mair di.
Boed i ni dy wasanaethu fel y gwasanaethodd Joseff di.
Boed i ni d'addoli fel yr addolodd y doethion di.
Iesu, ein Brenin. Amen.

Darllenydd: Yn y chweched mis, anfonwyd yr angel Gabriel gan Dduw i dref yng Ngalilea o'r enw Nasareth, at wryf oedd wedi ei dyweddïo i wŷr o'r enw Joseff, o dŷ Dafydd; Mair oedd enw'r wryf ...

Meddai'r angel wrthi – 'Paid ag ofni Mair, oherwydd cefaist ffafr gyda Duw; ac wele, byddi'n beichiogi yn dy groth ac yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu.'

(Luc 1:26–27; 30–31)

GOLYGFA 1

[*Mair yn dod i'r llwyfan ac yn eistedd*]

Storiwr: Tra eisteddai Mair yn dawel un diwrnod, gwelodd gysgod gloyw ar y brethyn roedd yn ei wnïo. Edrychodd i fyny mewn braw. Roedd Gabriel, angel Duw yn sefyll yn yr ystafell fechan. 'Mae Duw gyda thi, Mair,' meddai Gabriel, 'ac mae wedi dy fendithio'n fawr. Paid ag ofni, oherwydd newyddion da sydd gen i. Rwyt yn mynd i gael mab. Bydd e'n fab arbennig. Ef fydd y Brenin o deulu Dafydd y bu disgwyl hir amdano. Bydd ei deyrnas yn para byth.' 'Dydw i ddim yn deall,' meddai Mair yn dawel. 'Ond rwy'n forwyn i Dduw ac yn barod i wneud unrhyw beth mae'n ei ofyn.' Wedi i Gabriel fynd, dyma Mair yn dechrau canu a moli Duw am ei ddaioni.

Cân Mair: 'Blentyn mor dyner', *Clychau'r Nadolig*.

[*Mair yn gadael y llwyfan*]

GOLYGFA 2

Darllenydd: Yn y dyddiau hynny aeth gorchymyn allan oddi wrth Cesar Awgwstws i gofrestru'r holl Ymerodraeth. Aeth pawb felly i'w gofrestru pob un i'w dref ei hun.

(Luc 2:1, 3)

Storiwr: Dymuniad Awgwstws Fawr, ymerawdwr Rhufain, oedd cael gwybod faint o bobl oedd yn y wlad, a faint o drethi fyddai'n gallu eu casglu. Gorchmynnodd gynnal cyfrifiad drwy ei ymerodraeth. Rhaid oedd i bob Iddew fynd i'r dref lle cafodd ei eni i roi ei enw ar y rhestr.

Daeth y newyddion am y cyfrifiad i Nasareth ychydig cyn geni baban Mair. Fe fyddai'n rhaid i Joseff deithio i Fethlehem yn y de, lle ganwyd ei hynafiad y Brenin Dafydd, er mwyn rhoi ei enw ar y gofrestr Rufeinig. Dyna benderfynu mynd â Mair hefyd yn hytrach na'i gadael ar ei phen ei hun yn Nasareth.

[*Mair a Joseff yn meimio cychwyn ar eu taith*]

Storiwr: Bu'r ddau yn teithio am bron wythnos yn cerdded yn y dydd ac yn gorffwys allan y nos. Mor llawen oedden nhw o gael cip ar Fethlehem ar ben y daith.

Cân: 'Carol yr Asyn Bach', *Clychau'r Nadolig*.

Joseff: Ar drot, ar drot i Fethlehem
Clip, clop dros fryn a rhos
Gan gario Mair yn dyner
A chyrraedd gyda'r nos.

Joseff a
Mair: Ac yno'n dawel, dawel
Daeth baban bach i'r byd
A Mair a'i rhoes i orwedd
Ar wair y preseb clyd.

[*Mair a Joseff yn gadael y llwyfan*]

Storiwr: Gwydden nhw na fyddai'r llety'n foethus. Dim ond ystafell foel i gysgu ynddi a buarth i'r asyn. O leiaf, byddai'n gysgod i Mair y noson honno. Ond wedi cyrraedd, roedd pob gwesty'n llawn. Doedd dim lle o gwbl i'r ddau.

[*Sŵn curo ar ddrws*]

Wedi cnocio, gofynnodd Joseff 'Oes 'na lety yma i ni?' Ateb gwraig y llety oedd, 'Nac oes wir, mae'r lle'n llawn!'

Cân: 'Cnoc, cnoc!'

Joseff: Cnoc, cnoc! Cnoc, cnoc! Oes 'na lety yma i ni?
Gwraig y llety: Nac oes wir, mae'r lle yn llawn
Rydau ninnau'n brysur iawn!
Dim un gwely yn y tŷ,
Ewch i ffwrdd da chi!

Joseff: Cnoc, cnoc! Cnoc, cnoc! Oes 'na lety yma i ni?

Gwraig y llety: Hoffwn estyn help i chi
Ond y llawr yw 'ngwely i!
Mae gwesteion lond y lle
Heno yn ein tre.

Joseff: Cnoc, cnoc! Cnoc, cnoc! Oes 'na lety yma i ni?
Heno'n siŵr ein baban ni
Gaiff ei eni, welwch chi!

Gwraig y llety: Mae 'ma stabl lawn o wair.

Joseff: Tyrd i mewn i orffwys Mair.

[*Gwraig y llety'n gadael*]

GOLYGFA 3

Darllenydd: Pan oedden nhw yno, cyflawnwyd yr amser iddi esgor, ac esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig, a rhwymodd ef mewn dillad baban a'i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddyn nhw yn y gwesty.

(Luc 2:7)

[*Mair, Joseff a'r baban Iesu, a gwraig y llety yn ôl i'r llwyfan*]

Storiwr: Canodd Mair hwiangerdd fach i helpu'r baban Iesu i fynd i gysgu, a daeth rhai plant bach i ganu iddo hefyd.

[*Plant bach yn dod i'r llwyfan*]

Cân Mair: 'Cwsg, cwsg, cwsg mewn hedd', *Glas Glas Blaned*.

Cwsg, cwsg, cwsg mewn hedd,
Cau dy lygaid, breichiau Mair sy'n dynn amdanat,
Cwsg, cwsg, cwsg mewn hedd,
Mair sy'n gafael ynot.

Plant bach: Cwsg, cwsg, cwsg mewn hedd,
Cau dy lygaid, breichiau Mair sy'n dynn amdanat,
Cwsg, cwsg, cwsg mewn hedd,
Mair sy'n gafael ynot.

[*Mair, Joseff a'r plant yn gadael y llwyfan*]

GOLYGFA 4

Darllenydd: Yn yr un ardal yr oedd bugeiliaid allan yn y wlad yn gwarchod eu praidd liw nos. A safodd angel yr Arglwydd yn eu hymyl a disgleiriodd gogoniant yr Arglwydd o'u hamgylch.

(Luc 2:8, 9)

Storiwr: Cafodd y bugeiliaid fraw mawr, ond dywedodd yr angel, 'Peidiwch â dychryn. Mae gen i newyddion da i chi, fydd yn llawenydd i'r byd i gyd. Heddiw, ganwyd baban ym Methlehem. Ef yw Crist yr Arglwydd! Ewch i'w weld drosoch eich hunain. Mae wedi ei rwymo mewn cadachau ac yn gorwedd mewn preseb.' Yna, llanwyd yr awyr ag angylion yn canu emyn o fawl a diolch i Dduw. 'Gogoniant yn y goruchaf,' canodd yr angylion, 'tangnefedd ar y ddaear i'r rhai sydd wrth fodd Duw.'

Cân: 'O cofiwn hyn', *Clychau'r Nadolig*.

Person 1: Roedden nhw'n llawn cyffro wedi clywed hyn
Gan feddwl beth i'w wneud,
Rhaid mynd yno'n union syth i weld y baban bach
Os gwir yw'r hyn mae'r angel wedi'i ddweud,
Ie, os gwir yw'r hyn mae'r angel wedi'i ddweud.

[*Bugeiliaid yn gadael a Mair a Joseff yn dychwelyd i'r llwyfan*]

Pawb: Gogoniant i Dduw, gogoniant i Dduw,
Ganwyd Crist sy'n Geidwad byd,
Ym Methlehem dre dowch o hyd i'r un bach,
Brysiwch at ei grud.

Storiwr: Brysiodd y bugeiliaid ar draws y caeau tuag at Fethlehem ac wedi cyrraedd
y stabl gwelson nhw Mair a Joseff, a'r baban yn gorwedd yn y preseb a dyma
nhw'n plygu ar eu gliniau ac yn ei addoli.

Yna, dyma nhw'n adrodd y stori i Joseff a Mair a sôn am neges yr angel iddyn
nhw.

Cân: 'O cofiwn hyn', *Clychau'r Nadolig*.

[*Canu pennill 2 eto*]

GOLYGFA 5

Adroddiad: 'Mae'n wir,' medd bugeiliaid
Wrth fynd ato Ef,
'Fe glywsom y newydd
Gan angel o'r nef;
Rhaid teithio i Fethlem
Lle ganed Mab Duw,
Mae'n rhaid ei addoli,
Ein Ceidwad ni yw.'

'Mae'n wir,' meddai Joseff,
'Mae'n wir,' meddai Mair,
'Rhoed inni'r addewid
A chredwn y Gair;
Mae bellach yn gorwedd
Mewn preseb mor glyd,
Yn faban bach annwyl
Gwardwr y byd.'

'Mae'n wir,' medd y doethion
Wrth syllu i'r nen,
'Mae'r seren ryfeddol
Yn ddisglair uwchben;
Rhaid inni ei geisio
I'w foli o hyd
Fe'i ganed yn Frenin
Brenhinoedd y byd.'

'Mae'n Wir', *Clychau'r Nadolig*.

Cân: 'Y Doethion (2)', *Clychau'r Nadolig*.

Darllenydd: Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod, daeth sêr-ddewiniaid o'r dwyrain i Jerwsalem a holi, 'Ble mae'r hwn a anwyd i fod yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli.'

(Mathew 2:1-2)

Cân: 'Y Doethion (2)', *Clychau'r Nadolig*.

[*Pennill 1af unwaith eto*]

Storiwr: Wedi cyrraedd Jerwsalem dyma benderfynu mynd yn syth i'r palas. Byddai'r baban yn siŵr o fod yno. Ond y Brenin Herod oedd yn teyrnasu yn y palas. Cafodd yr hawl gan y Rhufeiniaid ac roedd yn gwarchod ei orsedd yn ofalus. Pe bai'n amau bod rhywun yn ceisio ei dwyn oddi arno, yna fe fyddai'n eiddgeddus dros ben. Cyn gynted ag y clywodd fod yno ddynion dieithr cyfoethog yn holi am frenin newydd, gofynnodd i'w brif offeiriad, 'Oes yna adnodau sy'n proffwydo ble fydd "y Brenin sydd wedi'i addo" yn cael ei eni?'

'Oes, eich Mawrhydi. Dywed y proffwyd Meica y bydd yn cael ei eni ym Methlehem, dinas y Brenin Dafydd.'

Cân: 'Y Doethion (3)', *Clychau'r Nadolig*.

[*pennill 3*]

[*Y doethion yn gadael y llwyfan*]

Darllenydd: Pan glywodd y Brenin Herod hyn, cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef.
(Luc 2:3)

[*Herod yn gadael a Mair a Joseff yn dychwelyd i'r llwyfan*]

Storiwr: Dilynodd y doethion y seren nes iddi aros uwchben stabl ym Methlehem. Lle rhyfedd i frenin gael ei eni! Doedd yno'r un tapestri lliwgar, nac addurniadau drud yn hongian ar y waliau, na morynion i weini ar y fam ac i ofalu am y baban. Yr unig beth a welson nhw yn y golau gwan oedd merch ifanc gyffredin yn magu ei mab bychan. Er hyn nid oedden nhw'n amau am funud eu bod wedi dod o hyd i'r 'Brenin oedd wedi'i addo'. Yna, mewn parch ac addoliad, dyma nhw'n cyflwyno eu rhoddion i Iesu.

Derbyniodd Mair nhw gan synnu.

[*Y doethion yn cyflwyno'r aur, thus a'r myrr*]

Roedd yr ymwelwyr yn fodlon wedi canfod y Brenin.

GOLYGFA 6

Cân: 'Ganwyd Crist ym Methlehem!', *Glas, Glas Blaned*.

Darllenydd: Crist Iesu. Er ei fod ar ffurf Duw erioed, ni ystyriodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i ddal gafael ynddo, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dod i'r byd ar wedd dynion. Am hynny tradyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw, fel wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad. Amen.

DIWEDD